



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

CYSAG

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 8FED MEHEFIN, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

Pwynt Cyswllt

Einir Rh Davies

01286 679868

EinirRhianDavies@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 31 Mai 2021)

CYSAG

AELODAETH (7)

Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Paul John Rowlinson
E. Selwyn Griffiths

Menna Baines

Judith Mary Humphreys

Annibynnol (3)

Y Cynghorwyr

Dewi Wyn Roberts

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor – Y Cynghorwyr Edgar Wyn Owen a Simon Glyn

Cristnogion a Chrefyddau Eraill

Dashu (Scott Smith)
Disgwyl Enwebiad
Awaiting Nomination
Gwawr Maelor Williams
Eirian Bradley Roberts
Anest Gray Frazer

Bwdhaeth
Yr Eglwys Fethodistaidd
Yr Annibynnwyr
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Yr Eglwys Gatholig
Yr Eglwys yng Nghymru

Athrawon

Miriam A. Amlyn
Cathryn Davey
Heledd Jones
Disgwyl Enwebiad

NAS/UWT
UCAC
NUT
ATL

Aelodau Cyfetholedig

Edward Parri-Jones

Dyneiddiwr

R H A G L E N

1. GWEDDI

Myfyrdod distaw neu weddi

2. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/2022

3. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is Gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/2022

4. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

6. MATERION BRYD

I nodi unrhyw faterion sydd o frys ym marn y Cadeirydd ar gyfer ystyriaeth

7. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

5 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2021 yn cael eu harwyddo fel rhai cywir

8. DYFODOL CANOLFAN ADDYSG GREFYDDOL PRIFYSGOL BANGOR 7

Cyflwyniad gan Dr Gareth Evans Jones, Darlithydd Astudiaethau Crefyddol, Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG** 8 - 34

I gymeradwyo, yn ddarostynedig i fan newidiadau, yr Adroddiad Blynyddol

10. **CYFETHOL DISGYBLION AR BWYLLGOR CYSAG**

I ystyried cyfethol disgyblion ar Bwyllgor CYSAG

11. **YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR "CANLLAWIAU YNGHYLCH CYNLLUNIO A GWEITHREDU ELFEN ORFODOL CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG"** 35 - 57

I ystyried ymateb i'r Ymgynghoriad gan Llywodraeth Cymru

12. **MATERION CCYSAGAU** 58 - 83

a) Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2021

I dderbyn cofnodion y cyfarfod

b) Enwebiad i'r Pwyllgor Gwaith

I drafod yr enwebiad i'r Pwyllgor Gwaith

c) Dyddiad y Cyfarfod Nesaf a Chynrychiolaeth i'r CCYSAGAU

I nodi dyddiad cyfarfod nesaf CCYSAGAU a chadarnhau y cynrychiolwyr

C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 10/02/21

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Paul J. Rowlinson (Cadeirydd)

Aelodau Cyngor Gwynedd: Y Cynghorwyr Menna Baines, Judith Humphreys a Selwyn Griffiths

Cristnogion a Chrefyddau eraill: Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Dashu (Bwdiaeth)

Athrawon: Miriam Amlyn (NASUWT), Cathryn Davey (UCAC)

Swyddogion: Buddug Mair Huws (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau) a Natalie Ll Jones (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Cadarnhawyd, er bod nifer o ymddiheuriadau wedi dod i law, bod cworwm.

1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Eurfryn Davies.

2. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Dewi Roberts, Heledd Jones (NEU), Anest G Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Garem Jackson (Pennaeth yr Adran Addysg), Cemlyn R Williams (Aelod Cabinet Addysg) a Sion Huws (Adran Gyfreithiol)

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

4. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd.

5. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd gadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020 fel rhai cywir, a'u llofnodi.

6. GWAHODDIAD GAN CYSAGAU CYMRU

Cyfeiriwyd at y gwahoddiad gan CYSAGAU Cymru i hyd at 4 aelod o CYSAG Gwynedd fynychu eu Cynhadledd Wanwyn, yn rhithiol, ar 23 Mawrth 2021.

Penderfynwyd :

Derbyn yr enwebiadau ar gyfer mynychu y gynhadledd:

Dashu

Cynghorydd Paul Rowlinson

Eurfryn Davies

Cynghorydd Selwyn Griffiths

7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL CYSAG

Nodwyd pryder nad oes Adroddiad Blynyddol wedi ei chwblhau ar gyfer y cyfnod 2018-2019 na 2019-20 er ei fod yn ofyn statudol.

Penderfynwyd :

Derbyn y sefyllfa, ond annog y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG i gysylltu gyda Bethan James ar fyrder i symud y mater ymlaen.

8. YMATEB GAN BRIFYSGOL BANGOR YNGLŶN Â DYFODOL AG

Atgoffwyd y Grŵp bod pryder wedi ei godi yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â dyfodol AG ym Mhrifysgol Bangor a bod y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Brifysgol i nodi y pryder hwn. Rhannwyd yr ymateb gyda CYSAG a theimlwyd y byddai yn fuddiol gwahodd darlithydd o'r Adran i roi cyflwyniad ar yr heriau yn sgil y cwricwlwm newydd.

Penderfynwyd :

Derbyn yr adroddiad ac ysgrifennu at y Dirprwy Is-Ganghellor gan gynnig iddo wahodd darlithydd o'r Brifysgol i fynychu cyfarfod nesaf CYSAG i roi cyflwyniad ar yr heriau sydd yn wynebu Addysg Grefyddol o fewn y Cwricwlwm newydd o fewn y dyniaethau.

9. ADDOLI AR Y CYD

Atgoffwyd y Grŵp o'r llythyr oedd wedi ei dderbyn gan CYSAGAU Cymru ynglŷn ag addoli ar y cyd tra mae ysgolion ar gau. Nodwyd y farn bod addoli ar y cyd yn rhan werthfawr o fywyd ysgol ond na ddylai fod yn rhoi pwysau ychwanegol ar athrawon yn y cyfnod anodd hwn. Nodwyd bod llythyr CYSAGAU Cymru yn cynnig adnoddau ac yn rhoi syniadau i'r perwyl. Nododd y Cadeirydd bod dyletswydd ar CYSAG i fonitro addoli ar y cyd ac ystyried a oes unrhyw beth arall y gallai CYSAG ei wneud i helpu?

Cyfeiriwyd at brofiadau aelodau o'r Pwyllgor a nodwyd bod ysgolion yn dod o hyd i'w traed erbyn hyn, ond eu bod o dan bwysau mawr o ran TGAU. Serch hynny, efallai ei bod yn amser nawr i geisio hyrwyddo normalrwydd. Nodwyd efallai fod y plattform yn ei le i athrawon allu ymateb i hyn? Nodwyd bod rhai asiantaethau wedi creu pethau, ar lefel leol yn barod allai fod o gymorth o bosib? Nodwyd pryder bod disgyblion yn treulio llawer o amser ar y sgrin, ac efallai y byddai gwasanaeth byw yn creu straen ychwanegol ormodol, a chadarnhawyd mai y peth diwethaf oedd CYSAG eisiau ei wneud oedd creu straen a phwysau ychwanegol.

Cyfeiriwyd hefyd at argaeledd gwasanaethau rhithiol a chwestiynwyd oni fyddai modd gyrru cyswllt rhithiol i un gwasanaeth, fyddai ar gael i bob ysgol? Byddai hyn yn lleihau straen ar athrawon ac yn caniatáu i gael mynediad at amrywiol grefyddau ar yr un pryd.

Soniwyd am un ysgol ble mae y Gweinidog lleol wedi paratoi gwasanaeth ar adegau penodol megis y Nadolig, ond wrth gwrs bod materion diogelu i'w hystyried cyn gallu cael presenoldeb y Gweinidog yn yr ysgol ei hun.

Penderfynwyd :

Derbyn yr adroddiad a nodi bod llawer o adnoddau ar gael - nid yn unig yr adnoddau a gyfeirir atynt gan CYSAGAU Cymru eu hunain ond yn y gymuned yn lleol. Cytunwyd i gasglu yr holl bwyntiau cyswllt at ei gilydd cyn anfon llythyr atgoffa at yr ysgolion yn amlygu yr adnoddau hyn, a'u hannog i ystyried addoli ar y cyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a.m. a daeth i ben am 10.30 a.m.

CADEIRYDD

Tud. 6

Ail-Gysylltu

Mae Prifysgol Bangor am gyfrannu at gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Astudiaethau Crefyddol a gwella'r adnoddau addysgiadol sydd ar gael i athrawon a myfyrwyr.

Mae Astudiaethau Crefyddol wedi profi amryw newidiadau yn y blynyddoedd diwethaf, gydag athrawon yn gorfod paratoi ar gyfer ac addysgu maes llafur sy'n gyson newidiol ar lefel Cyfnod Allweddol 3, TGAU a Safon Uwch, tra bo recritwio graddedigion newydd fel athrawon pwnc yn methu â dal efo'r galw.

Bydd prosiect Ail-Gysylltu yn Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas yn gweithio i gasglu a datblygu adnoddau addysgiadol i gael eu defnyddio gan athrawon a myfyrwyr, cynnal gweithdai adolygu ar gyfer myfyrwyr Safon Uwch ac annog mwy o fyfyrwyr prifysgol cyfredol i ddod yn athrawon pwnc.

Fel yr esbonia'r Athro Lucy Huskinson, sy'n arwain y prosiect:

“Mae'n rhaid inni sicrhau bod gennym niferoedd digonol cyfredol a newydd o athrawon sy'n teimlo'n hyderus i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a gyflwynir i Astudiaethau Crefyddol mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru a Lloegr, i ymateb i'r diddordeb cynyddol yn y pwnc ymysg myfyrwyr.

“Rydym eisiau ymateb i ddwy broblem sydd wedi cael eu hadnabod, diffyg hyder ac arbenigedd ymysg athrawon ysgolion uwchradd cyfredol, sy'n teimlo nad ydynt wedi eu paratoi'n ddigonol i addysgu'r cwricwlwm Safon Uwch newydd; a'r lleihad nodedig o'r sawl sy'n astudio'r pwnc ym Mhrydain sy'n ystyried gyrfa mewn addysgu astudiaethau crefyddol ac athroniaeth mewn addysg uwch.

“Rydym yn edrych ymlaen at weithio gydag amryw ysgolion ar draws Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, i gryfhau'r berthynas rhwng amryw bynciau a addysgir mewn cynlluniau athroniaeth a chrefydd yn yr ysgol a lefelau prifysgol, a'r farn tuag atynt a'u defnydd mewn byd gwaith. Byddem felly'n gwneud awgrymiadau am sut ddylai'r pynciau gael eu haddysgu ar lefel genedlaethol.”

Mewn ymgais i annog mwy o fyfyrwyr i ystyried addysgu fel gyrfa, bydd y prosiect hefyd yn annog myfyrwyr cyfredol i ystyried gyrfa fel athrawon Astudiaethau Crefyddol, drwy eu darparu â chyfleoedd i brofi addysgu Astudiaethau Crefyddol ar gyfer eu hunain, drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau cefnogol.

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog
ar Addysg Grefyddol**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
Gwynedd
Medi 2019 – Awst 2020**

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Garem Jackson

CYNNWYS

ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Y Cyngorydd Paul Rowlinson

ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol

2.2 Y Maes Llafur Cytûn

2.3 Pa mor dda yw safonau?

2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

ADRAN 3: ATODIADAU

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2019-20

3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd

3.4 Arweiniad CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarnu safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd

3.5 Arweiniad CYSAG Gwynedd i aelodau sy'n mynychu sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion

3.6 Cynllun Gweithredu CYSAG Gwynedd 2017-20

ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL

Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Torrwyd ar draws y flwyddyn academaidd 2019-20 gan y pandemig Covid 19, gyda'r ysgolion yn gorfod cau eu drysau i'r rhan fwyaf o'r disgyblion a dyfeisio dulliau newydd o ddarparu addysg o bell. Effeithiwyd hefyd ar waith CYSAG Gwynedd a dim ond un cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Bryd hynny, trafodwyd hunan arfarniadau chwech o'n hysgolion ac mae'n braf nodi eu bod i gyd wedi cyrraedd safon dda neu ragorol ym mhob un o'r meysydd arolygu. Ymatebwyd hefyd i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar sicrhau y gall pob dysgwr fanteisio ar y cwricwlwm llawn. Yn ystod y cyfnod clo llwyddwyd hefyd i ymateb i ymgynghoriad arall ar ddogfen ymgynghorol y Llywodraeth, Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg, gan gywain barn yr aelodau trwy e-bost. Rwy'n ddiolchgar i holl aelodau CYSAG Gwynedd am eu hymroddiad yn ystod y flwyddyn. Mae'n werth nodi serch hynny bod y CYSAG yn ceisio cyflawni ei swyddogaethau heb y cymorth proffesiynol y bu GwE yn ei ddarparu yn y gorffennol a bod gwir angen i'r Awdurdod sicrhau cefnogaeth briodol i'w waith i'r dyfodol.

Yn dilyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd, ehangwyd aelodaeth y CYSAG i gynnwys cynrychiolwyr mwy o grefyddau a chredoau ac rwyf yn croesawu cyfraniadau yr aelodau newydd. Fodd bynnag, mae nifer heb enwebu cynrychiolwyr eto a gobeithio y bydd modd croesawu mwy o gynrychiolwyr ffydd yn y dyfodol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n hathrawon am y ffordd y maent wedi ymaddasu a gweithio mewn ffyrdd newydd i gefnogi ein disgyblion. Un o brif flaenoriaethau ein hysgolion yn ystod y cyfnod hwn yw hyrwyddo lles ein disgyblion, gan gynnwys eu lles ysbrydol, cymdeithasol ac emosiynol. Yn ogystal â chynnal gwersi o bell, mae ein hysgolion wedi ymdrechu i ddyfeisio ffyrdd newydd o gynnal gweithredoedd o addoli ar y cyd, sydd yn rhan werthfawr o fywyd ysgol ac yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol. Yn y dyddiau anodd hyn, mae angen datblygu ysbryd cymunedol a gwerthoedd cyffredin yn fwy nag erioed.

Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2019/2020

2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliaid clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, *'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'*. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol.
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.

2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 9 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Mae CYSAG Gwynedd, penaethiaid, ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templedi a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu ESTYN (gweler Atodiad 3.4). Mae clerc CYSAG Gwynedd, sy'n swyddog adnoddau addysg cynorthwyol gyda Chyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddsbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol. Derbyniwyd 6 adroddiad yn ystod 2019-20, sef 6% o ysgolion Gwynedd. Oherwydd y pandemig COVID-19 fe ddaeth ymweliadau ESTYN i ben yn ystod Mawrth 2020 ac fe ail-bwrpaswyd ysgolion ledled Cymru dros dro o'r 20fed Mawrth 2020 hyd y 14eg o Fedi 2020 gan atal y gofyn am ddarpariaeth addysg statudol yn ystod y cyfnod hwnnw.

	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018	2019-2020
Nifer o adroddiadau	14 cynradd 0 uwchradd	11 cynradd 2 uwchradd	13 cynradd 1 uwchradd	9 cynradd 2 uwchradd	6 Cynradd 0 Uwchradd
% o ysgolion Gwynedd	14.1%	13.4%	14.4%	9.2%	6%

Cyflwynwyd a derbyniwyd, adroddiadau hunan arfarnu gan yr ysgolion canlynol yn ystod y flwyddyn: Ysgol Llandygai; Ysgol Pentreuchaf; Ysgol Bethel; Ysgol y Garnedd; Ysgol Tudweiliog ac Ysgol Llandwrog

Mae'r canllawiau a'r templedi hunan arfarnu a ddarperir gan GYSAG yn gofyn i'r ysgolion i ymateb i gwestiynau Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN (Gweler atodiad 3.4). Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.

Hunan arfarniad addysg grefyddol sy'n seiliedig ar Fframwaith Arolygu newydd ESTYN

(Gweler: Atodiad 3.4)

Cyflwynodd yr ysgolion adroddiadau hunan arfarnu oedd yn seiliedig ar y canllawiau sy'n ymateb i Fframwaith Arolygu newydd ESTYN.

Mae'r barnau yn cyfeirio at addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn unig.		Rhagorol	Da	Digonol	Anfodddhaol
Maes Arolygu 1 Safonau	Cynradd	1	5		
	Uwchradd				
Maes Arolygu 2 Lles ac agweddau at ddysgu	Cynradd	1	5		
	Uwchradd				
Maes Arolygu 3 Addysgu a phrofiadau dysgu	Cynradd	1	5		
	Uwchradd				
Maes Arolygu 4 Gofal, cymorth ac arweiniad	Cynradd	1	5		
	Uwchradd				
Maes Arolygu 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth	Cynradd	1	5		
	Uwchradd				

Roedd y mwyafrif o'r adroddiadau hunan arfarnu yn nodi materion gwella neu oedd angen sylw pellach ond ambell un yn unig oedd yn nodi cryfderau penodol pob ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyfeirio at ofynion y Maes Llafur Cytûn. Yn anffodus roedd 3 o'r 6 adroddiad yn eithriadol o debyg i'w gilydd a gweddol brin oedd y cyfeiriadau penodol at addysg grefyddol. Mae'n werth nodi bod 2 o'r ysgolion a gyflwynodd adroddiadau cynhwysfawr yn ysgolion eglwys.

Nododd pob Pennaeth bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd. Manylodd 3 o'r Pennaethiaid ar y drefn Addoli ar y cyd yr oeddent yn ei dilyn.

Yn dilyn mae blas o'r hyn a gyflwynwyd fel sylwadau gan yr ysgolion:

Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol

Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?

Roedd y canlynol ymysg y nodiadau a gyflwynwyd gan yr ysgolion:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol yn fedrus ac yn ymateb yn abl wrth eu trafod. Mae'r rhan fwyaf yn dwyn i gof arferion crefyddol o amryw o grefyddau yn llwyddiannus erbyn brig yr ysgol gan gymharu crefyddau, eu harferion a dysgeidiaeth a thrafod yr hyn sydd yn debyg.
- Mynegir gwerthoedd penodedig Gristnogol yn glir. Mae cymeriad a gwerthoedd Cristnogol yr ysgol yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr.
- Mae'r gwerthoedd Cristnogol yn cael eu cyflwyno mewn gwersi, cyd- addoliad, cyfnodau myfyrio ac yn sail i weithredoedd beunyddiol yr ysgol.
- Mae'r ysgol wedi cyflwyno llyfrynau porffor i'r disgyblion gwblhau eu gwaith Addysg Grefyddol. Ynddynt ceir stôr o dystiolaeth trawsgwricwlaidd safonol sydd yn adlewyrchu'r pedwar diben a'r 6 maes dysgu a phrofiad.
- Mae manau priodol i annog myfyrdod a gweddi yn amlwg o amgylch yr ysgol sydd yn estyn cyfleoedd i ddisgyblion a rhanddeiliad yr ysgol i wneud defnydd ohonynt i fyfrio/ gweddio.

Cyd-addoli

- Rydym wedi integreiddio cyfleoedd i ddysgwyr gyfrannu at yr addoliad (e.e. darlenniadau, drama, gweddiâu, cerddoriaeth), sydd yn ei dro wedi meithrin perchnogaeth dros y cyfnodau gan y disgyblion.
- Mae cynllun cyd-addoli wedi ei lunio i sicrhau parhad, amrywiaeth a ffocws clir ar gredoau a gwylliau Cristnogol. Cenir amrywiaeth o emynau yn ein gwasanaethau.
- Maent yn hyderus wrth drafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol, gan eu bod yn cael profiadau i drafod yn y gwasanaeth boreol (dosbarth ac ysgol gyfan). Mae agwedd gadarnhaol i weld wrth iddynt ymchwilio i gredoau a dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gwahanol. Gwelwyd hyn drwy eu gwaith ymchwil diweddar ar Islam. Mae'r trafodaethau yn yr amser cylch wythnosol yn werthfawr gan ei fod yn cynnig cyfleoedd i fynegi barn ac ymholi am eu ymatebion personol i gredoau a theimladau.

Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol

Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?

Roedd y canlynol ymysg y nodiadau a gyflwynwyd gan yr ysgolion:

- Mae gan ddysgwyr beth dealltwriaeth o etifeddiaeth Gristnogol Cymru ac o Gristnogaeth fel crefydd amlddiwylliannol ledled y byd, ac maent yn parchu amrywiaeth a gwahaniaethau o fewn y cymunedau ffydd eraill.
- Mae'r ysgol hefyd wedi gwreiddio cynllun Gwerthoedd Teulu sydd yn plethu gyda gwerthoedd Cristnogol yr Eglwys. Mae gwaith ar y gwerthoedd hyn yn cael ei gynllunio'n fisol o fewn y dosbarthiadau.
- Gwelir diddordeb ac ymatebion brwd gan y disgyblion yn y maes. Maent wedi ymholi ac ymchwilio i wahanol gredoau gan feddwl am gwestiynau eu hunain cyn mynd ati i ddarganfod atebion. Mae'r disgyblion yn ymwybodol bod gwahanol grefyddau a'u credoau eu hunain a'i bod yn bwysig parchu pob aelod o gymdeithas.

Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol

Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog

Roedd y canlynol ymysg y nodiadau a gyflwynwyd gan yr ysgolion:

- Mae cynllunio ar gyfer Addysg Grefyddol yn fwriadus ac yn ymateb o ofynion y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol. Fe ail-gynlluniwyd cynlluniau tymor hir ar gyfer Addysg Grefyddol ym Medi 2018 er mwyn sicrhau dilyniant yn y medrau.
- Mae athrawon yn trefnu ymweliadau addysgol i'r Eglwys leol, y Gadeirlan ac i'r Mosg er mwyn i'r disgyblion ymgyswrtu gyda addoldai a defodau.
- Mae canlyniadau system dracio (asesiadau athro, profion Cenedlaethol a mewmol) yn dangos fod pob plentyn yn gwneud cynnydd yn erbyn ei gyrraedd blaenorol ac yn erbyn ei dargedau personol. Llwyddir i wneud hyn drwy adnabyddiaeth drylwyr a pherthynas ragorol gyda'r disgyblion. Y mae arsylwadau gwersi yn dangos fod gan y disgyblion agweddau positif at ddysgu.
- Mae gan yr ysgol ddiffiniad clir o ysbrydolrwydd y mae'r rhan fwyaf o oedolion yn ei ddeall. Nodir profiadau yn y cwricwlwm, sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu hysbrydolrwydd. Mae dysgwyr yn ymateb yn dda ac yn datblygu'r gallu i fynegi eu meddyliau'n glir a hyderus.
- Ceir enghreifftiau pwerus o waith megis Hapusrwydd yw, Adnabod cwestiynau sylfaenol bywyd, beth mae'r Beibl yn ei ddweud am gariad, Credoau Sikh am y cread, Crefydd yn erbyn gwyddoniaeth, Hanes Creu yr Hindwiaid, Dewi Sant, Y Grawys, Sut mae pobl yn dathlu'r Pasg, Yr Wythnos Sanctaidd, Neges Heddwch ac Ewyllys Da, defnyddio ein llais fel arf, Hawliau plant a chyfrifoldeb.
- Mae sawl haen i addysg grefyddol. Drwy ddilyn y Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru gallwn gyfoethogi addysg ein disgyblion. Gyda dyfodiad y Cwricwlwm Newydd mae dysgu trawsgwricwlaidd yn elfen gryf iawn ym myd addysg. Bydd y cynllunio yn drawsgricwlaidd a fydd yn aml yn adeiladu ar wybodaeth blaenorol. Defnyddir amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys llyfrau, eitemau ac ymwelwyr. Mae'n bwysig cadw'r pwnc yn fyw a pherthnasol i'r disgyblion a cael cyflwyniadau gwerthfawr; ar adegau byddwn yn defnyddio 'mantell yr arbenigwr' i gyflwyno sefyllfa neu broblem.

Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol

I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrion ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrion ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?

Roedd y canlynol ymysg y nodiadau a gyflwynwyd gan yr ysgolion:

- Trwy gyfrwng gwasanaethau ysgol gyfan a gwasanaethau dosbarth, caiff disgyblion amser i ddatblygu ac adfyfrio, datblygu gwerthoedd moesol megis parch, gonestrwydd a tegwch a datblygu'r dealltwriaeth a'r gallu i wahaniaethu rhwng yr hyn sydd ac nad yw'n dderbyniol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos y gwerthoedd hynny.
- Mae aelodau cymuned yr ysgol yn deall pwysigrwydd cydaddoli ym mywyd yr ysgol ac yn gallu mynegi'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw'n bersonol.
- Mae cyfnodau myfyrion yn arwain at drafodaethau aeddfed ymysg y disgyblion- gellir arwain a chefnogi disgybl ymhellach yn dilyn cyfnod o drafodaeth.
- Mae ardaloedd gweddio / myfyrion amrywiol sydd o fewn yr ysgol yn rhoi cyfle arbennig i ddisgyblion fynd ati'n anibynnol i fyfyrion/ gweddio sydd yn elfen o ragoriaeth yn Llandygai.

- Yn dilyn y thema 'Breuddwydion' yn CA2, bu'r plant wrthi yn ddyfal yn creu drama ar hanes Martin Luther King, ble roedd cydraddoldeb a hawliau dynol yn dod yn fyw iddynt. Cawsom gynnal gwasanaeth i weddill yr ysgol i actio'r ddrama. Yn yr un modd cafwyd ffilm fer o hanes Rosa Parks ar y bws, ble roedd y plant yn cynhyrchu, ffilmio ac action a'i dangos i weddill yr ysgol mewn gwasanaeth oedd yn dod a dewrder dros hilioldeb yn fyw.

Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol

A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?

Roedd y canlynol ymysg y nodiadau a gyflwynwyd gan yr ysgolion:

- Mae'r arweinyddiaeth gan y cydlynnydd yn dda ac mae'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y pwnc. Mae'n meddu ar y gwybodaeth a'r dealltwriaeth i arwain yn effeithiol.
- Mae arweinwyr yn cyfleu a hyrwyddo gweledigaeth ar sail gwerthoedd penodedig Gristnogol. Lluniwyd a thrafodwyd y weledigaeth ar y cyd gyda'r holl randdeiliaid. Cynhelir gwasanaethau a gwersi penodol ar y gwerthoedd Cristnogol sydd yn sail i'r weledigaeth. Hyderir y gall hyn roi cyfleoedd i'r disgyblion i drafod, i ymestyn dealltwriaeth ac i fynegi'r gwerthoedd mewn amrywiol dulliau.
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod cydaddoli, AG ac agweddau ar y cwricwlwm yn cael eu llywio gan werthoedd penodedig Gristnogol sy'n cyfrannu at ymddygiad ac agweddau da'r dysgwyr ynghyd â'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.
- Mae gan yr ysgol gyfeiriad strategol cryf gyda'r Gwerthoedd Cristnogol, lles a deallusrwydd emosiynol disgyblion ynghyd â datblygiad dysgu ac addysgu blaengar yn ganolbwynt i'w gweithrediadau.
- Mae'r Pennaeth wedi cyflwyno timau o ddisgyblion i feithrin Llais y Plentyn yn yr ysgol. Cafodd y 'Cryw Ysbrydol' eu cyflwyno yn yr ysgol y llynedd a fyth ers hynny maent wedi bod yn gweithio'n galed ar syniadau cyffrous a diddorol i ddatblygu ethos grefyddol yr ysgol. Mae hon, yn ddiamau, yn elfen rhagorol i waith yr ysgol.
- Caiff y rhieni eu hysbysu am yr hawl i dynnu plant o'r gwersi Addysg Grefyddol neu'r Gwasanaethau drwy lawlyfr yr ysgol sy'n cael ei ddsbarthu ar ddechrau'r flwyddyn addysgol. Hyd yma nid oes neb wedi gwneud cais i eithrio eu plant.

Nodwyd rhai cryfderau arbennig o fewn y Meysydd arolygu ynghyd â rhai materion byddai angen sylw.

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- Naws deuluol yr ysgol yn hyrwyddo amgylchedd gartrefol a saff i'r disgyblion ffynnu a datblygu i'w llawn botensial.
- Cyswllt arbennig rhwng yr ysgol, y rheithor a'r eglwys leol. Effaith hyn yw fod y disgyblion yn datblygu ymdeimlad o fod yn aelod nid yn unig o deulu'r eglwys ond hefyd y gymuned ehangach ac sydd hefyd yn rhoi ymdeimlad Cristnogol gref yn y disgyblion.

Ymhlith y materion a fyddai angen sylw yn ystod y ddwy flynedd ddilynol byddai:

- Datblygu'r elfen o gydweithio ysgol i ysgol er mwyn cryfhau y gweithgareddau a'r gwerthoedd a gynnigir yn yr ysgol yn barod.
- Disgyblion i gymeryd fwy o rôl yn nhrefniadaeth gwasanaethau'r ysgol gan gyfrannu'n effeithiol drwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw, rannu teimladau ar y pryd a thrwy fyfyrion ar yr hyn a drafodwyd.
- Datblygu cyfleon i fyfyrion ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd a myfyrion ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain.

- Datblygu staff a llywodraethwyr fel arweinwyr mewn ysgolion eglwysig. Rhoi cefnogaeth dda i arweinwyr ym maes addoli ac AG i gyflawni eu rolau er mwyn eu galluogi i gyflawni gwelliannau neu i gynnal arferion da blaenorol.
- Adolygu ac adnewyddu'r polisi addoli
- Ymglyfarwyddo gyda'r cwricwlwm newydd gan ddechrau mireinio cynlluniau
- Parhau i ddatblygu adnoddau trawsgwricwlaidd i gyd fynd a'r Gwersi Addysg Grefyddol
- Parhau i gynllunio addoli ar y cyd ar gyfer yr ysgol gyfan
- Ystyried defnydd o'r Maes Llafur Addysg Grefyddol Eglwysig o fewn yr ysgol.
- Datblygu rôl rhanddeiliaid yr ysgol wrth gynllunio cyfnodau o gyd-addoli yn yr ysgol.
- Parhau i ddatblygu'r Gymuned Ddysgu Broffesiynol gydag Ysgolion Eglwys Cyfagos.
- Credwn fod angen rhoi sylw i gwestiynau anodd bywyd sy'n cael eu codi yn y dosbarth ynglŷn bywyd a marwolaeth.
- Mae angen rhoi sylw i'r ffurfio dadleuon a chyfiawnhau safbwyntiau gan gydnabod bod casgliadau yn rhannol yn unig, yn amhendant ac yn agored i ddehongliadau gwahanol.
- Buasai taith i Synagog yn ddiddorol iawn iddynt er mwyn ehangu eu gwybodaeth ar fywyd ysbrydol yr Iddewon. Buasai hyn yn gallu dod ochr yn ochr pan fyddwn yn gweithio ar thema yr ail ryfel byd efallai.

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd

2.3.2 Aseidiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Ni thrafodwyd aseidiadau athrawon disgyblion CA3 na chanlyniadau arholiadau allanol CA4 a CA5 yn ystod cyfarfodydd 2019-20.

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd

- Annog adrannau uwchradd i ymateb i unrhyw negeseuon a amlygir yn sgil dadansoddi data perfformiad mewnol ac allanol ysgolion ac yn adroddiad arholwyr CBAC.
- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC a hwyluso cyfleoedd iddynt gydweithio gydag ymarferwyr arweiniol GwE wrth ymateb i fanylebau yr arholiadau TGAU a Safon Uwch newydd.

2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Cyflwynwyd gwybodaeth am arolygiadau 5 ysgol gynradd 2019-20.

Ni welwyd unrhyw gyfeiriad penodol at addysg grefyddol yn adroddiadau ESTYN, ond mae pob adroddiad yn cyfeirio at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion a gwelir cyfeiriad at addoli ar y cyd mae dau o'r adroddiadau arolygu.

Mae'r adroddiadau yn nodi:

- *“Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu'n bwrpasol yn ystod gwasanaethau, trwy arwain y gweddïo neu ganu'r piano”. (Ysgol y Garnedd)*
- *“Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Trwy fyfyrïo mewn sesiynau cyd-addoli a dysgu am egwyddorion crefyddau amrywiol, mae'r staff yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion brofi elfennau ysbrydol a moesol. Cefnogir hyn yn dda trwy drefnu i'r disgyblion ymweld â mosg a'r eglwys gadeiriol fel rhan o'u gwersi. Mae'r eglwys a'r capel lleol yn adnoddau gwerthfawr i'r ysgol wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau'r Nadolig a'r cynhaeaf. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n unigolion moesol a gwybodus. (Ysgol Tudweiliog)*

2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mair Huws, Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol Gwynedd yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Gwynedd yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd ac i Gyngor Gwynedd.

Mae cynllun gweithredu CYSAG Gwynedd yn amlinellu pedair blaenoriaeth ar gyfer 2017-20 (gweler atodiad 3.6). Mae'r blaenoriaethau yn codi o drafodaethau'r flwyddyn ac adroddiadau blynyddol 2016-17, 2017-18. Fodd bynnag, mewn cyfnod o doriadau cyllidol, nid oes bellach gwasanaeth ymgynghorol lleol sy'n gallu cynnig cefnogaeth neu hyfforddiant i athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol ac mae'n her gynyddol i CYSAGau i allu cynghori a chefnogi ysgolion.

Blaenoriaeth 1: Cwricwlwm i Gymru, Maes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau a'r "Yr hyn sy'n bwysig"

Blaenoriaeth 2: Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd da/da iawn

Blaenoriaeth 3: Cefnogaeth broffesiynol i GYSAG Gwynedd?

Blaenoriaeth 4: Profiadau cyfoethog – cyfraniad partneriaid lleol i ddatblygu dealltwriaeth o addysg grefyddol o fewn y cwricwlwm newydd?

Hyd at Ebrill 2018, roedd Cyngor Gwynedd yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAG Gwynedd ac i gynrychioli CYSAG Gwynedd mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Ym mis Mawrth 2018, hysbyswyd clerc CYSAG Gwynedd na fyddai GwE yn cefnogi CYSAG Gwynedd bellach.

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd

- Sicrhau bod CYSAG Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth ac arweiniad strategol priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel pwyllgor statudol.
- Ymateb i gynllun gweithredu i CYSAG Gwynedd ar gyfer 2019-20.

2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- <http://cymru.gov.uk> > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed (2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (<http://cbac.co.uk>)

Cwricwlwm i Gymru

- Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.
- Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru.
- Ymatebodd CYSAG Gwynedd i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar: Ymgynghoriad ynghylch cynigion i sicrhau y gall pob dysgwr fanteisio ar y cwricwlwm llawn yn ystod Tymor yr Hydref 2019 ac yna ar ddogfen ymgynghorol Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn ystod Tymor yr Haf 2020.

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd

- Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau
- Annog athrawon addysg grefyddol Gwynedd ac aelodau CYSAG Gwynedd i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu;

2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Gwynedd yn argymhell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017)
- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Mehefin 2018)

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd

- Sicrhau bod ysgolion ac athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau'r arolygiadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i GYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
 - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017);
 - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).
- Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

Penderfyniadau

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.

ADRAN 3: ATODIADAU

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:

Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

Athrawon, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

Aelodau etholedig

Yn 2019 adolygwyd cyfansoddiad CYSAG gan Gabinet Cyngor Gwynedd a phenderfynwyd ychwanegu un cynrychiolydd o'r credoau:

- Bwdiaeth
- Islam
- Hindŵaeth
- Iddewiaeth
- Siciaeth
- Dyneiddiaeth

3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2019-20

Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol

Yr Eglwys Fethodistaidd
Undeb Bedyddwyr Cymru
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru
Undeb yr Annibynwyr
Yr Eglwys Babyddol
Bwdaeth
Dyneiddwyr

Disgwyl enwebiad
Mrs Elizabeth Roberts
Dr. W Gwyn Lewis
Anest Grey Frazer
Cynrig Hughes
Eirian Bradley Roberts
Dashu (Scott Smith)
Edward Parri-Jones

Cynrychiolwyr Athrawon

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Cymdeithas yr Ysgolfestri ac Undeb yr Athrawesau
(NASUWT)
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL)

Mrs Alwen Watkin (Ysgol Eifionydd)
Mrs Catherine Davey (Ysgol Llanystumdwy)
Mrs Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd)

Mrs Heledd Owen (Ysgol Friars)
Disgwyl enwebiad

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

Cynghorydd Paul Rowlinson
Cynghorydd E Selwyn Griffiths
Cynghorydd Menna Baines
Cynghorydd Judith Humphreys
Cynghorydd Elin Walker Jones
Cynghorydd Medwyn Hughes
Cynghorydd Dewi Wyn Roberts
Cynghorydd Mike Stevens

Plaid Cymru
Plaid Cymru
Plaid Cymru
Plaid Cymru
Plaid Cymru
Annibynnol
Annibynnol
Annibynnol

Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)

Gwyn Rhydderch
Parchedig Aled Davies

Swyddogion

Garem Jackson
Mair Huws

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol

Einir Davies

Swyddog Gwasanaethau Democraataidd

3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2019-20

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2019 – 2020, cyfarfu CYSAG Gwynedd unwaith yn unig o'r 3 cyfarfod oedd wedi' clustnodi:

- 6 Tachwedd 2019
- 5 Chwefror 2020 (gohiriwyd)
- *8 Mehefin 2020 (canslwyd)

*Yn sgil argyfwng COVID-19 yn ystod mis Mawrth 2020 bu i Grŵp Busnes y Cyngor benderfynu blaenoriaethu pwyllgorau ar gyfer eu cynnal a'u gwe-ddarlledu. Cymerodd y Grŵp Busnes y penderfyniad i osod CYSAG ynghyd â nifer o Bwyllgorau eraill yng nghategori Blaenoriaeth 3 ac felly ni fu'n bosib cyfarfod hyd Tymor yr Hydref 2020.

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rhain yn y cofnodion ac yng nghorff yr adroddiad hwn:

a) Cyfarfod 6 Tachwedd 2019

- Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ynghylch cynigion i sicrhau y gall pob dysgwr fanteisio ar y cwricwlwm llawn
- Hunan arfarniadau ysgolion: Tudweiliog, Llandygai, Llandwrog, Y Garnedd, Pentreuchaf, Bethel
- Awdit oriau gwersi Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd
- Cofnodion Cyfarfod CCYSAGau Cymru 28/06/19

b) Cyfarfod 5 Chwefror 2020 (gohiriwyd er mwyn cyfarfod i drafod y ddogfen ymgynghorol Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg oedd i'w chyhoeddi ar ddechrau Mawrth 2020)

3.3.1 Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

3.3.2 Darperir cynhaliadaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Garem Jackson, Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Mair Huws, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol sy'n gweithredu fel clerc CYSAG
Einir Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidd sy'n gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Gwynedd.

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Ysgolion Gwynedd

Darperir copi hefyd i:

- Aelodau CYSAG Gwynedd

3.4 Tabled CYMAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunanarfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

Gwybodaeth bellach:

- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu'i addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi addysg grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010 -12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

Gwybodaeth bellach

- <http://cymru.gov.uk> > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed (2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (<http://cbac.co.uk>)

ESTYN

Mae arolygiadau ESTYN yn seiliedig ar bum maes arolygu:

1. Safonau
2. Lles ac agweddau ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth






Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd.

Gwybodaeth bellach:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)

DRAFT

Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?

<p>Craffu ar lyfrau</p> 	<p>Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion, (<i>e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched</i>) er mwyn helpu'r cydlynnydd i ateb cwestiynau megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni? • I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn? • I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol • Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol?
<p>Arsylwadau gwersi</p> 	<p>Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynnydd i ateb cwestiynau megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni? • A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel? A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu? • I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn? • I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol? • Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol?
<p>Holiaduron a chyfweliadau</p> 	<p>Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol? • Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol? • Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol? • Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol?
<p>Data</p> 	<p>Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod? (<i>pob ysgol</i>) • Pa mor dda y mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adranau eraill? (<i>ysgolion uwchradd yn unig</i>) • A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni? (<i>pob ysgol</i>) • Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn addysg grefyddol?
<p>Eraill</p>  <p>Newyddion Addysg Grefyddol Religious Education News</p>	<p>Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol; • Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadledau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu genedlaethol; • Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff <i>e.e. cydlynwyr llythrennedd rhifedd neu TGCh</i>; • Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG; • Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol; • Achrediad allanol, <i>e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol</i> http://www.reqm.org/wales

Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)

I ba raddau y mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)

Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol).

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

"Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrion ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrion ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol ddod i farn ar faes arolygu 4.2. Mae gan addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar addysg grefyddol yn ystod tymor yr Hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod y rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

Maes Arolygu 1: Safonau

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau addysg grefyddol yn eich ysgol? (*Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5*)
- Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwranddo, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau addysg grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn addysg grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r ddarpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis fel opsiwn Ast. Cref? % sy'n cael achrediad am AGref statudol.

